Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 029 2044 5030
08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mr Colin Everett
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

10 Awst 2015

Annwyl Mr Everett

Adolygiad o Gartrefi Gofal: Dadansoddiad o'ch ymateb terfynol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Rwy'n arbennig o falch bod eich sefydliad wedi llwyddo i roi'r sicrwydd imi yr oedd arnaf ei angen yn sgil eich ymateb cychwynnol ym mis Ionawr 2015.

Rwy'n croesawu'r arweiniad strategol a gweithredol a'r ymroddiad i bobl hŷn mewn cartrefi gofal y mae Cyngor Sir y Fflint wedi'u dangos yn glir wrth gyfleu a chyflawni'r newid angenrheidiol a amlinellais yn fy Adolygiad o Gartrefi Gofal gan eich bod wedi rhoi manylion clir am gamau rydych chi wedi'u cymryd neu y byddwch yn eu cymryd er mwyn cyflawni'r canlyniadau arfaethedig ar ran pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.

Rwy'n croesawu'r faith eich bod wedi cynnwys sgôr 'risg', gan fod hynny'n dangos yn agored sut mae'ch sefydliad yn cloriannu'r risg a'r cynnydd o'u cymharu â phob Angen Gweithredu. Mae'n dda gweld bod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd mewn rhai o'r Anghenion Gweithredu.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae'ch sefydliad wedi cynnig mynd ati i ddatblygu gwasanaethau neu brosesau newydd sydd â'r potensial i symud ymlaen fel arferion gorau. Er enghraifft, rydych chi wedi ymrwymo i gyflwyno hyrwyddwr annibyniaeth ym mhob cartref gofal er mwyn ymgorffori diwylliant annibyniaeth (Angen Gweithredu 2.2). Ar ben hynny, yn yr Adroddiad ar yr Adolygiad o Gartrefi Gofal ei hun, rhoddais groeso i'r ffaith bod proses monitro ansawdd yn cael ei chyflwyno, sydd wedi'i seilio ar y canlyniadau, a hynny ar sail ymgynghori â phobl hŷn a'u teuluoedd ynghylch eu disgwyliadau nhw ynglŷn â gofal preswyl.

Fel y gwyddoch, o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb.

Fel y dywedais yn barod, byddaf yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu ledled Cymru ac rwy'n bwriadu gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol am hyn ac am y camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd. Caiff y datganiadau hyn eu gwneud ar 11 Awst.

Dwy ddim yn bwriadu gofyn am ddiweddariad manwl am yr holl gamau sydd gennych ar y gweill, oherwydd lefel y sicrwydd a'r ymrwymiad rydych chi wedi'u dangos wrth sicrhau'r canlyniadau hyn. Gan hynny, rwy'n bwriadu cynnal adolygiad dilynol ymhen 18 mis, pryd y byddaf yn chwilio am dystiolaeth bendant bod y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni'n gyson ar draws cartrefi gofal eich ardal (bod eich camau chi wedi'u cwblhau). Yn nes ymlaen, byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyd a lled yr adolygiad a'r dull y byddaf yn ei ddefnyddio.

Er hynny, mae yna nifer o feysydd y bydd arna i angen diweddariad a sicrwydd yn eu cylch yn y cyfamser ac fe fyddaf yn ysgrifennu atoch ar wahân ynglŷn â'r rhain a sut y byddaf yn gofyn ichi wneud hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi i sicrhau bod gan bobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru yr ansawdd bywyd gorau posibl a'r safonau gofal uchaf.

Yn gywir

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru